

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI
12 MEHEFIN 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Tai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 12 Mehefin 2024

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Marion Bateman (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr:

Pam Banks, Gillian Brockley, Helen Brown, Tina Claydon, Rosetta Dolphin, David Evans, Chrissy Gee, Ted Palmer, Kevin Rush a Dale Selvester

YN ARSYLWI:

Y Cyngorwyr: Rob Davies, Dave Hughes a Paul Johnson fel arsylwyr

CYFRANWYR:

Y Cyngorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Prif Swyddog (Tai a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth Asedau Tai; Rheolwr Strategol Tai a'r Rhaglen Gyflawni; a'r Rheolwr Cyllid Strategol

HEFYD YN BRESENNOL:

Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg

1. PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD:

Nodi penodiad y Cyngorydd Marion Bateman yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

2. PENODI IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cyngorydd Tina Claydon yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2024/25.

3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

PENDERFYNWYD:

Datganodd y Cyngorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel Tenant i'r Cyngor.

4. COFNODION (Dolen i'r Recordiad)

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror, 6 Mawrth a 22 Ebrill fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror ([cofnodion](#)), 6

Mawrth ([cofnodion](#)) a 22 Ebrill, 2024 ([cofnodion](#)) fel cofnod cywir.

5. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED
([Dolen i'r Recordiad](#))

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y [Rhaglen Waith](#) gyfredol i'w hystyried, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu oedd i'w cwblhau.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu oedd i'w cwblhau.

6. FFIOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2024/25 ([Dolen i'r Recordiad](#))

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) [adroddiad](#) oedd yn cynnig ffioedd ar gyfer 2024/25.

Eglurwyd y byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2024.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd gwresogi cyfredol yn adeiladau'r Cyngor sydd â systemau gwresogi adeiladau cyffredin fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

7. 'GYDA'N GILYDD FE ALLWN NI' – CYDNERTHEDD A HUNANDDIBYNIETH
CYMUNEDAU ([Dolen i'r Recordiad](#))

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) [adroddiad](#) oedd yn rhoi trosolwg o adroddiad Archwilio Cymru “Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol”, oedd yn trafod sut y gallai meithrin cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol helpu i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau awdurdodau lleol yn y dyfodol, pe bai awdurdodau lleol yn newid o fod yn 'ddarparwr uniongyrchol' i fod yn 'alluogwr'.

Eglurwyd y byddai sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2024.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad ynghyd â chynnig ychwanegol.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru “Gyda’n gilydd fe allwn ni’ – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol”;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi’r ymateb oedd yn cael ei argymhell mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith nifer o sefydliadau gwirfoddol ac unigolion ar hyd a lled y Sir ac yn cyfleu hyn i’r Cabinet wrth ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin.

8. DIWEDDARIAD PERFFORMIAD CYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH DAI ([Dolen i'r Recordiad](#))

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) a Rheolwr Strategol Tai a’r Rhaglen Gyflawni [adroddiad](#) i roi diweddariad ar gyflawni Cynllun Gweithredu’r Strategaeth Tai 2019–2024 gyda phwyslais penodol ar flwyddyn ariannol 2023/24.

Ar gais y Cynghorydd Helen Brown, byddai nodyn briffio am y risgiau yn y dyfodol yn cael ei rannu ag Aelodau’r Pwyllgor cyn gweithdai’r Strategaeth Tai.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

PENDERFYNWYD:

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi’r cynnydd ar gyflawni Cynllun Gweithredu’r Strategaeth Tai 2019–2024; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi’r newidiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad i’r canlynol:

- Alinio safonau a’r gyfradd ymyrryd ar gyfer caffaeliadau o dan y Grant Tai Cymdeithasol gyda’r rhai o’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP).
- Yr amserlen ddiweddaraf i adnewyddu’r Strategaeth Tai gyfredol.

9. RHEOLI CARTREFI GWAG ([Dolen i'r Recordiad](#))

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Asedau Tai’r ffigyrau a’r gweithgareddau allweddol wrth gyflawni’r cynllun gweithredu ar eiddo gwag, fel y nodwyd yn y [nodyn briffio](#).

Yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Helen Brown ynglŷn â gweithredoedd cadarnhaol gweithiwr tai, cytunwyd ar anfon llythyr diolch at y gweithiwr gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Nodi’r diweddariad.

10. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.06 am)

.....
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai eu gweddarlledu, ac mae modd eu gwyllo drwy fynd i'r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma:
<http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>